




Gêm Geirfa: Llygryddion sy'n Peri Problem



Carthffosiaeth

Tud 2 a 3

Slyri

Tud 4 a 5

Llaeth

Tud 6 a 7

Elifion silwair

Tud 8 a 9

Elifion grawn bragwyr

Tud 10 a 11

Carthffosiaeth



Beth yw hyn?

Carthffosiaeth yw unrhyw beth sy'n llifo trwy garthffos ac mae hyn yn cynnwys dŵr bath, gwastraff diwydiannol a gwastraff toiled. Mae'r gwastraff yn cael ei gario trwy rwydwaith o garthffosydd o le preswyl neu weithle i waith trin dŵr gwastraff. Ar ôl cyrraedd y gwaith trin dŵr mae'r gwastraff yn mynd trwy sawl proses er mwyn cael gwared ar halogion ac mae'n cynhyrchu dŵr gwastraff sy'n ddiogel i'w ryddhau i'r amgylchedd naturiol.




Domestig/ Diwydiant



Mae'n gallu mynd yn broblem...

Weithiau mae carthffosydd yn cau ac yn blocio pan fydd pobl yn fflysio eitemau na ddylent i lawr y toiled e.e. cewynnau neu hancesi gwlyb, neu pan adewir i wastraff bwyd, saim a braster fynd i lawr y sinc. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd carthffosydd yn cau ac yn blocio gan beri i garthffosiaeth heb ei drin orlifo i mewn i gartrefi, gerddi, ffyrdd a chysiau dŵr. Ar wahân i fod yn ddrewllyd iawn, mae carthffosiaeth heb ei drin yn llawn bacteria ac afiechydon a all niweidio bywyd gwyllt a bodau dynol os yw'n mynd i mewn i gysiau dŵr.





Slyri



Beth yw slyri?

Mae slyri yn gymysgedd o dail (baw) anifeiliaid a dŵr. Bydd ffermwyr yn casglu ac yn storio slyri mewn lagŵn, pwll neu storfa slyri er mwyn iddo ddadelfennu a chwalu dros amser i greu gwrtaith naturiol y gellir ei daenu ar y tir er mwyn ffrwythloni a bwydo cnydau.



Amaeth



Mae'n gallu mynd yn broblem...

Os yw storfa slyri yn gollwng neu fod slyri'n cael ei daenu ar gaeau wedi'u rhewi neu sydd dan ddŵr, neu os bydd gor-wasgaru yn digwydd, gall y slyri ymledu i gwrs dŵr. Mae llawer o amonia mewn slyri, ac mae hyn yn wenwynig i bysgod, felly gall unrhyw slyri sy'n mynd i mewn i gwrs dŵr gael effaith niweidiol ar ansawdd y dŵr.





Llaeth



Beth yw e?

Cynnyrch anifeiliaid llawn maethynnau a gynhyrchir gan anifeiliaid fel buchod, defaid a geifr.

Yn ei gyflwr amrwd, heb ei drin (yn ffres o'r anifail), mae llaeth yn cynnwys bacteria a micro-organebau naturiol. I ladd unrhyw facteria niweidiol cyn i ni ei dywallt ar ein grawnfwyd, caiff llaeth ei drin â gwres mewn hufenfa (sef proses o'r enw 'pasteureiddio') cyn cael ei botelu a'i werthu.



Amaeth/ Trafnidiaeth/ Diwydiant



Mae'n gallu mynd yn broblem...

Mae llaeth sy'n cael ei ollwng ar fferm laeth yn gallu ymdreiddio i'r pridd a mynd i mewn i'r cwrs dŵr agosaf. Gall llaeth hefyd gael ei ollwng pan fydd tancer sy'n cludo llaeth o fferm i hufenfa yn troi drosodd, neu gall gael ei golli wrth ei brosesu mewn hufenfa. Mewn achosion o'r fath, bydd llaeth yn mynd i'r cwrs dŵr agosaf drwy ddraen llifogydd (sef draen a ddyluniwyd i ddraenio glaw a dŵr daear dros ben o strydoedd, palmentydd, meysydd parcio a ffyrdd) neu drwy'r pridd.

Mae llaeth yn sylwedd llygrol iawn. Mewn cyrsiau dŵr, mae'r bacteria yn bwyta'r llaeth ac yn ei ddadelfennu, gan gynyddu o ran nifer a defnyddio'r ocsigen a fyddai fel arall yn cael ei ddefnyddio gan bysgod ac anifeiliaid eraill sy'n byw yn y cwrs dŵr.





Elifion silwair



Beth yw e?

Glaswellt neu blanhigion gwyrdd eraill sydd wedi'u torri, eu cywasgu a'u storio mewn amodau aerglos, heb yn gyntaf gael eu sychu yw silwair.

Bydd ffermwyr yn lladd gwair dros fisoedd yr haf, cyn ei fyrnu a'i lapio mewn deunydd aerglos er mwyn cau ocsigen allan a chadw'r glaswellt. Fel arall gellir storio glaswellt mewn pyllau silwair mawr.

Mae gwneud silwair yn ffordd bwysig i ffermwyr fwydo eu hanifeiliaid dros y gaeaf ac ar adegau pan nad yw'r glaswellt yn tyfu rhyw lawer. Ar ôl eu storio mae'r gwair yn eplesu (torri i lawr) ac mae hyn yn ei helpu i gadw cynifer o'r maetholion (y siwgrau a'r proteinau) i mewn â phosib. Mae'r eplesu hwn yn cael ei wneud gan organebau microsgopig sy'n byw yn y glaswellt.



Amaeth



Mae'n mynd yn broblem...

Mae'r holl ocsigen mewn bêl o silwair neu mewn storfa silwair wedi'i ddefnyddio, mae bacteria'n dechrau lluosu - newyddion da o ran cynhyrchu silwair. Fodd bynnag, os yw sudd eplesu (elifyn) yn gollwng o'r byrnau neu'r storfeydd silwair, yn socian i mewn i bridd ac yn ymledu i gwrs dŵr, gall y bacteria sy'n cael eu dal yn yr elifyn leihau lefelau ocsigen yn y dŵr ac, o ganlyniad, niweidio'r pysgod a bywyd dyfrol arall.

Mae i elifyn silwair asidedd uchel (pH = 3.5 i 5) ac mae hyn yn ei wneud yn gynyddol i ddur ac yn niweidiol i goncrit, sy'n gwneud y gwaith o drin, storio a gwaredu yn heriol.





Elifion grawn bragwyr



Beth yw e?

Mae cwrw yn ddiod sydd wedi'i heplesu a'i gwneud o wahanol fathau o rawn. Mae elifyn grawn bragwyr yn gynnrych dros ben o'r broses o gynhyrchu cwrw sydd, yn bennaf, yn cynnwys grawn dros ben.



Diwydiant



Mae'n mynd yn broblem...

Mae elifyn grawn bragwyr yn cynnwys cryn dipyn o siwgr, proteinau a mwynau. Os na fydd elifyn grawn bragwyr yn cael ei waredu'n ofalus mae yna berygl y gallai ymledu i gwrs dŵr, gan leihau lefelau ocsigen ar draul y pysgod a'r anifeiliaid sy'n byw yn y cwrs dŵr.

Mae elifyn grawn bragwyr yn llygrydd problemus oherwydd wrth fynd i mewn i gwrs dŵr, mae'r bacteria yn y dŵr yn bwydo ar yr elifyn ac yn ei ddadelfennu. Bydd y bacteria'n cynyddu mewn nifer ac yn defnyddio'r ocsigen a fyddai fel arall yn cael ei ddefnyddio gan bysgod ac anifeiliaid eraill sy'n byw yn y cwrs dŵr.



